Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 27ain Tachwedd 2012

Presennol: A. Mummery (Cadeirydd), A. Jones, A. Williams, J. Roberts, G. Parry, A. Thomas, J. A. Edwards, B. Jones, G.C. Jones, E. Jones, H. Huws, D. Williams, E. Parry.
Cynghorydd Sirol J. Evans
Anwen Le Cras (Clerc)

1. Ymddiheuriadau: I. Bebb

2. Datganiadau Diddordeb: Ni dderbyniwyd datganiadau o ddiddordeb.

3. Materion Cyngor Sir
Cynhaliwyd cyfarfod yn y Cyngor Sir i drafod cynlluniau'r Grid Cenedlaethol i osod peilonau newydd ar draws yr ynys. Y Cyngor Sir yn erbyn y cynlluniau ac yn ffafrio'r opsiwn o osod ceblau tanfor. Diolchwyd i Gyngor Bro Llanfairpwll am fod yn flaengar ar y gwaith o dynnu sylw at yr ymgynghoriad.

Nodwyd bod llifogydd ar Lon Penmynydd a Lon Bringo - y Cadeirydd wedi cysylltu â'r adran briffyrdd.
Llwybr Cil y Graig - nodwyd bod y llwybr wedi'i rwystro can Mr Challinor a bod y mater yn cael ei ddelio gydag yn y llys.
Gofynnodd J. Roberts am gael mynd yn ôl i'r hen drefn o gael adroddiad ysgrifenedig ar faterion y Cyngor Sir.

4. Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion 27ain Tachwedd 2012
Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion
5.1 Cais yswiriant Mrs Ella Owens am ddifrod i'w char ar y gweill.
5.2 Cafodd y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd gyfarfod gydag Albert Owen AS yn y Neuadd Goffa. Mr Owen yn gefnogol o'r ymdrech i adeiladu neuadd newydd.
5.3 Llythyrau wedi'u hanfon at asiantaethau yn gofyn iddynt wrthwynebu peilonau.
5.4 Y Clwb Ieuenctid sydd yn gyfrifol am dalu am atgyweirio'r ffenest a dorrwyd yn y neuadd.

6. Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo
Cynigwyd gan A. Jones ac eilwyd gan G. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion
7.1. Y Clerk i gysylltu â Jenny Clarke yn y Cyngor Sir ynglŷn â chael paentio arwyddion llwybr beicio. Cysylltu hefyd gydag Wyn Jones ynglŷn ag ymestyn y ffens o flaen y llwybr newydd yn y Gors.

7.2 Cynlluniau Gwaith - A. Jones wedi siarad gyda Mrs Steele ynglŷn â'r syniad o blannu blodau o amgylch y pentref. Yn anffodus oherwydd problemau iechyd ni fydd Mrs Steele yn parhau i edrych ar ôl y blodau ac felly hefyd unrhyw gynlluniau newydd.
Adroddodd E. Parry bod modd cael y Gwasanaeth Prawf i helpu gyda'r gwaith plannu ac i dacluso'n gyffredinol.

7.2 Cafwyd pris gan K. Humphreys am gael bin mawr yn y Gors. Angen gofyn i'r Cyngor Sir am bris hefyd.

7.3 Gofyn i'r deintydd os yw'n fodlon rhyddhau'r plotiau blodau i'r Cyngor Bro er mwyn eu cynnwys yn y cynlluniau gwaith.

8. Cyfrifon Mis Rhagfyr 2012
Cyflwynwyd taenlen mis Rhagfyr yn ogystal â thaenlen gwariant yn erbyn y gyllideb.
Cynigiwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

9. Gohebiaeth
9.1 CSYM, penderfyniadau cynllunio - er gwybodaeth
9.2 Un Llais Cymru -cyfarfod lleol 10fed Ionawr 2013.
9.3 Albert Owen AS - cylchlythyr
9.4 Rhwydwaith Gwirfoddoli Môn - er gwybodaeth
9.5 Ymgynghoriad Llifogydd CSYM - dyddiad cau 28ain Ionawr 2013
9.6 Llywodraeth Cymru - ymgynghoriad ar y we.

10. Unrhyw Fater Arall
10.1 Trem Eryri - wal gyferbyn a hen dy Warden wedi torri. Y cadeirydd i gysylltu â'r adran tai.
10.2 Lon Penmynydd/Ffordd Teifion - ysgolion gyrru yn defnyddio'r gyffordd i ymarfer gwrth droi. Teimlwyd bod y lle yn anaddas ar gyfer hyn er ei fod yn un o'r llwybrau mae'r DSA yn ei ddefnyddio ar gyfer profion gyrru.
10.3 Llwybr Troed o'r Graig at Lon Hedydd - gwreiddiau coeden wedi codi ar y llwybr yn beryglus i gerddwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.

Arwyddwyd..... Cadeirydd .....Dyddiad